



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2009 Rhif 3341 (Cy.292) (C.152)

ADDYSG, CYMRU

**Gorchymyn Deddf Prentisiaethau,
Sgiliau, Plant a Dysgu 2009
(Cychwyn Rhif 1) (Cymru)
2009**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Hwn yw'r offeryn cychwyn cyntaf a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p.22) ("Deddf 2009").

Mae'r Gorchymyn yn dwyn i rym ar 12 Ionawr 2010 adran 205 o Ddeddf 2009 ac Atodlen 14 iddi.

Mae adran 205 o Ddeddf 2009 ac Atodlen 14 iddi yn gwneud darpariaeth o ran ysgolion sy'n peri pryder yng Nghymru ac o ran gorfodaeth ynghylch cyflogau ac amodau athrawon gan awdurdodau addysg lleol. Yn benodol mae paragraff 6 o Atodlen 14 i Ddeddf 2009 yn mewnosod adran newydd 19ZA yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31), sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdodau addysg lleol i roi hysbysiad o rybudd i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir mewn cysylltiad â gorchymyn o dan adran 122 o Ddeddf Addysg 2002 (cyflogau ac amodau athrawon).

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2009 No. 3341 (W.292) (C.152)

EDUCATION, WALES

**The Apprenticeships, Skills,
Children and Learning Act 2009
(Commencement No. 1) (Wales)
Order 2009**

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

This is the first commencement order made by the Welsh Ministers under the Apprenticeships, Skills, Children and Learning Act 2009 (c.22) ("the 2009 Act").

The Order brings into force on 12 January 2010 section 205 of, and Schedule 14 to, the 2009 Act.

Section 205 of, and Schedule 14 to, the 2009 Act make provision in relation to schools causing concern in Wales and to the enforcement by local education authorities of teachers' pay and conditions. In particular paragraph 6 of Schedule 14 to the 2009 Act inserts a new section 19ZA into the School Standards and Framework Act 1998 (c.31), which gives a power to the Welsh Ministers to direct local education authorities to give a warning notice to a governing body of a maintained school in connection with an order under section 122 of the Education Act 2002 (teachers' pay and conditions).

2009 Rhif 3341 (Cy.292) (C.152)

2009 No. 3341 (W.292) (C.152)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

Gorchymyn Deddf Prentisiaethau,
Sgiliau, Plant a Dysgu 2009
(Cychwyn Rhif 1) (Cymru)
2009

The Apprenticeships, Skills,
Children and Learning Act 2009
(Commencement No.1) (Wales)
Order 2009

Gwnaed

16 Rhagfyr 2009

Made

16 December 2009

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 262(2) a (3) o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009(1), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred upon them by section 262(2) and (3) of the Apprenticeships, Skills, Children and Learning Act 2009(1), make the following Order:

Enwi a dehongli

Title and interpretation

1.–(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2009.

1.–(1) The title of this Order is the Apprenticeships, Skills, Children and Learning Act 2009 (Commencement No. 1) (Wales) Order 2009.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "Deddf 2009" ("*the 2009 Act*") yw Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009.

(2) In this Order "the 2009 Act" ("*Deddf 2009*") means the Apprenticeships, Skills, Children and Learning Act 2009.

Y diwrnod penodedig

Appointed day

2. Daw adran 205 o Ddeddf 2009 ac Atodlen 14 iddi i rym ar 12 Ionawr 2010 o ran Cymru.

2. Section 205 of, and Schedule 14 to, the 2009 Act come into force on 12 January 2010 in relation to Wales.

Leighton Andrews

Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes,
un o Weinidogion Cymru

Minister for Children, Education and Lifelong
Learning, one of the Welsh Ministers

16 Rhagfyr 2009

16 December 2009

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2009 Rhif 3341 (Cy.292) (C.152)

ADDYSG, CYMRU

**Gorchymyn Deddf Prentisiaethau,
Sgiliau, Plant a Dysgu 2009
(Cychwyn Rhif 1) (Cymru)
2009**

© Hawlfraint y Goron 2009

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2009 No. 3341 (W.292) (C.152)

EDUCATION, WALES

**The Apprenticeships, Skills,
Children and Learning Act 2009
(Commencement No. 1) (Wales)
Order 2009**

© Crown copyright 2009

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.